# Abladiad anwedd dŵr drwy'r wrethra ar gyfer symptomau'r llwybr wrinol isaf a achosir gan hyperplasia prostadol anfalaen

22 Awst 2018

Hyperplasia prostadol anfalaen yw pan fydd y prostad yn chwyddo ond nid o ganlyniad i ganser. Gall hyn flocio neu gulhau'r wrethra (y tiwb y mae wrin yn pasio drwyddo i adael y corff), gan achosi problemau wrth basio wrin. Yn ystod y driniaeth hon, caiff anwedd dŵr wedi'i gynhesu (stêm) ei chwistrellu i mewn i'r prostad gan ddefnyddio stiliwr a gaiff ei basio i fyny'r wrethra. Mae'r gwres o'r stêm yn dinistrio rhywfaint o feinwe'r prostad, gan ei leihau.

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer symptomau'r llwybr wrinol isaf a achosir gan hyperplasia prostadol anfalaen. Nid oes unrhyw bryderon difrifol am ei diogelwch. Gellir ei defnyddio ar gyfer pobl sydd â symptomau'r llwybr wrinol isaf a achosir gan hyperplasia prostadol anfalaen.

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3058-6

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights